# Taflen Ganllaw 1 – Cadw’r Peth yn Gyfreithlon (Cydymffurfio)

Rydych chi wedi penderfynu cychwyn eich busnes eich hun – bod yn fos arnoch chi’ch hun. Er bod hyn yn golygu eich bod chi’n gallu rheoli beth rydych chi’n ei wneud, pa oriau rydych chi’n eu gweithio a’r cyfle i weithio o amgylch eich teulu, mae rhai pethau mae’n rhaid i chi eu gwneud i sicrhau eich bod yn rhedeg eich busnes yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Bydd y daflen hon yn rhoi trosolwg o’r gofynion isod a ble i gael mwy o gymorth.

1. Cofrestru gyda’r Adran Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi)
2. Yswiriant
3. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
4. Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
5. Cymorth i Fusnesau

## 1. Cofrestru gyda’r Adran Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi)

Mae cofrestru â’r Adran Cyllid a Thollau’n broses ar-lein. Bydd y broses gofrestru’n gofyn am wybodaeth amdanoch chi a’ch busnes. Bydd cofnodion treth yn cael eu creu gan ddefnyddio’r wybodaeth yma felly mae’n rhaid iddi fod yn gywir. Trwy gofrestru gyda’r Adran Cyllid a Thollau, rydych chi’n cofrestru ar gyfer treth hunanasesiad, talu trethi fel cyflogwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Bydd angen i bob darparwr gofal-meicro gofrestru gyda’r Adran Cyllid a Thollau. Byddwch yn cofrestru fel **un** o’r canlynol:

**Unig Fasnachwr** - Mae hyn yn golygu y bydd gennych statws hunangyflogedig. Dyma’r ffordd hawsaf o ddechrau busnes. Mae’n bwysig nodi y gall bobl hunangyflogedig gyflogi staff ychwanegol.

**Partneriaeth** - Gall dau neu fwy o bobl sy’n dechrau busnes gyda’i gilydd ffurfio partneriaeth.

**Cwmni Cyfyngedig** - Mae hyn yn rhoi hunaniaeth ar wahân i’r busnes. Mae’n fwy cymhleth i’w reoli, gan fod angen cadw cofnodion manwl ac adrodd yn flynyddol i Dŷ’r Cwmnïau, a’i fod yn agored i graffu cyhoeddus.

### Rhagor o wybodaeth

Am ganllawiau llawn ac i gofrestru:

- Hunangyflogaeth
  Cliciwch yma
- Partneriaeth
  Cliciwch yma
- Cwmni Cyfyngedig
  Cliciwch yma

## 2. Yswiriant

Mae unrhyw weithgarwch busnes yn agored i risg ar ryw lefel a bydd angen yswiriant. Mae yswiriant mae angen i chi ei ystyried a'i brynu'n cynnwys:

- Atebolrwydd cyhoeddus (£5 miliwn) yn cynnwys yswiriant ar gyfer gwallau meddyginiaeth. Mae hyn oherwydd bod rhai risgiau ynghlwm â rôl gofalwr e.e. rhoi meddyginiaethau neu helpu pobl i symud o gwmpas yn eu cartrefi neu tu allan. Dyma sefyllfaoedd lle gallai, er enghraifft, anafiadau personol, camgymeriadau neu ddamweiniau ddigwydd
- Atebolrwydd Cyflogwr (£5 miliwn) - **DIM OND** os ydych yn cyflogi staff
- Yswiriant busnes ar eich car
- Os ydych yn cynnig gwasanaethau cynnal o ran anifeiliaid, ystyriwch gael yswiriant anifeiliaid anwes

### Rhagor o wybodaeth

Rhai yswirwyr sy'n gwerthu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus i ofalwyr:

- Fish Insurance
  Cliciwch yma
- Mark Bates Limited
  Cliciwch yma
-

## 3. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

P'un a ydych chi'n unig fasnachwr neu'n cyflogi pobl, mae Deddf Diogelu Data 2018 yn rheoli sut mae gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau, busnesau neu'r llywodraeth.

Deddf Diogelu Data 2018 sy'n rhoi'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mewn grym yn y DU.

Rhaid i bawb sy'n gyfrifol am ddefnyddio data personol ddilyn rheolau llym o'r enw '**egwyddorion diogelu data**'. Mae'n rhaid iddynt wneud yn siŵr bod y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw:

- yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion penodol, eglur
- yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen yn unig
- yn gywir a, lle bo angen, yn cael ei chadw'n gyfredol
- ddim yn cael ei chadw'n hirach na'r angen
- yn cael ei thrin mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol, gan gynnwys diogelwch rhag prosesu, mynediad, colli, dinistrio neu ddifrod anghyfreithlon neu anawdurdodedig

Mae diogelwch cyfreithiol cryfach ar gyfer gwybodaeth fwy sensitif, fel:

- hil
- cefndir ethnig
- barn wleidyddol
- credoau crefyddol
- aelodaeth o undeb llafur
- geneteg
- biometreg (os yw'n cael ei defnyddio i adnabod rhywun)
- iechyd
- bywyd neu ogwydd rhywiol

## Rhagor o wybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Cliciwch yma

## 4. Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (Deddf yr Heddlu)

Bydd angen i unigolion sy'n bwriadu gweithio yn y sector gofal gael gwiriad DBS manylach. Nod y gwiriad DBS ydi darparu sicrwydd i gwsmeriaid/cleientiaid rydych chi'n gweithio gyda nhw. Mae'r DBS wedi dod yn lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Mae mynediad i'r gwasanaeth gwirio DBS manylach ar gael i gyflogwyr cofrestredig yn unig sydd â hawl o dan gyfraith i ofyn i unigolion ddatgelu eu hanes troseddol llawn, gan gynnwys collfarnau sydd wedi dod i ben. Er nad Cyngor Sir y Fflint fydd eich cyflogwr, bydd yn gwneud cais am dystysgrif DBS fanylach ar eich rhan, er mwyn asesu eich addasrwydd i ddarparu gwasanaeth meicro-ofal hunangyflogedig.

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi'n byw neu'n gweithio **yng Nghymru neu yn Lloegr**, mae angen i chi ymgeisio am 'Dystysgrif Gwiriad Sylfaenol' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i chi fod dros 16 i ymgeisio.

Am wybodaeth lawn am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Cliciwch yma

## Datblygu a Chymorth Meicro-ofal

Rob Loudon, Meicro-ofal, Swyddog Datblygu a Chynllunio
Rhif ffôn: 01352 701461
E-bost: Robert.loudon@flintshire.gov.uk
Swyddog Datblygu Meicro-ofal

Marianne Lewis, Meicro-ofal, Swyddog Cynllunio a Datblygu
Rhif ffôn:  01352 702126
E-bost:  Marianne.lewis@flintshire.gov.uk
Swyddog Datblygu Meicro-ofal

## Cymorth i Fusnesau

San Leonard, Prif Weithredwr Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
Rhif ffôn: 07799 345 940
E-bost: sanleonard@socialfirmswales.co.uk

Busnes Cymru
Rhif ffôn: 03000 603 000
Gwefan: https://busnescymru.llyw.cymru